

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Adroddiad Amgylcheddol 2024/25

# Adroddiad Amgylcheddol 2024/25

## Rhagarweiniad

Yn ystod 2024/25 mae'r Brifysgol wedi parhau i ddangos ei hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol drwy weithredu ei System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn barhaus. Ym mis Mawrth 2025, llwyddodd y Brifysgol i ddal gafael ar ei hardystiad yn unol â'r safon a gydnabyddir yn rhyngwladol o ran rheolaeth amgylcheddol - ISO 14001:2015. Cadarnhaodd yr archwiliad ardystio allanol gydymffurfiaeth â'r safon, ac amlygodd gynnydd mewn meysydd allweddol, gan gynnwys rheoli ynni, lleihau carbon, a theithio cynaliadwy, gan adlewyrchu ymdrechion rhagweithiol y Brifysgol i leihau ei defnydd o ynni a'i hallyriadau carbon.
Yn ogystal, cyflawnodd y Brifysgol ostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 drwy wella mesurau effeithlonrwydd gweithredol, gan gynnwys amserlenni gwresogi wedi'u haddasu a chau mannau addysgu ac ymchwil sy'n cael eu tanddefnyddio'n strategol. Cyfrannodd y camau gweithredu hyn at arbedion carbon mesuradwy a chefnogodd nodau datgarboneiddio ehangach y Brifysgol o dan y fenter 25 erbyn 25, a oedd â'r nod o leihau allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 25% erbyn 2025 o lefelau sylfaenol 2018/19. Erbyn 31 Gorffennaf 2025, roedd allyriadau carbon y Brifysgol wedi gostwng 39.2%, sy'n cynrychioli gostyngiad o 3,720.87 tunnell o CO2e o'i gymharu â 2018/19.

## Bioamrywiaeth

Dros gyfnod 2024/25, gwnaeth y Brifysgol gynnydd sylweddol o ran gwella bioamrywiaeth ar draws ei hystâd. Dechreuwyd ar y project *Ardal Natur a Choetir Cymunedol, Parc y Coleg* ym mis Hydref 2023 a chafodd ei gwblhau ym mis Chwefror 2025. Wedi'i ariannu'n llawn gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'n cynrychioli carreg filltir arwyddocaol i'r Brifysgol.

Cyflwynodd y project Gynllun Rheoli Coetiroedd cynhwysfawr, gan gynnwys plannu 1,500 o goed brodorol a 15,000 o flodau gwyllt a bylbiau, yn ogystal â gosod llochesi aeafgysgu a bywyd gwyllt i gefnogi anifeiliaid i greu cynefinoedd. Fe wnaeth hefyd gyflawni uwchraddiadau isadeiledd allweddol i wella mynediad a mwynhad, gan gynnwys ail-wynebu llwybrau troed presennol, gosod meinciau coed, creu llwybr troed coetir newydd, ac ailgynllunio'r fynedfa i gerddwyr oddi ar Lôn Cariadon.

Hefyd, tyfodd y fenter bioamrywiaeth 30 erbyn 30 o bum safle i 10, a oedd yn nodi cynnydd cyson tuag at y nod o greu 30 o ardaloedd er budd bywyd gwyllt erbyn 2030. Gyda chymorth y tîm Tiroedd a Gerddi, mae arferion rheoli newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer y safleoedd 30 erbyn 30 hyn i wella cynefinoedd presennol, ac i greu rhai newydd, i roi hwb i fioamrywiaeth a nifer y rhywogaethau planhigion, anifeiliaid a ffwng brodorol.

Yng Ngardd Fotaneg Treborth y Brifysgol, parhaodd y gwaith i weithredu'r mesurau a gefnogwyd gan y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG), a ddyfarnwyd ym mis Mehefin 2024. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys adfer a gwella coetiroedd, gwella mynediad, a chyflwyno rhaglen amrywiol o gyrsiau, gweithdai a hyfforddiant.

## Defnydd Gwastraff a Dŵr

Ym maes gwastraff a'r economi gylchol, cynhyrchodd y Brifysgol 673.26 tunnell o wastraff trefol, gostyngiad gwerth 64.53 tunnell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y gyfradd ailddefnyddio ac ailgylchu gyffredinol ychydig i 56.3%, o 55.28% yn 2023/24. Parhaodd llwyfan *Warp It* y Brifysgol i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ailddosbarthu dodrefn, offer swyddfa a deunyddiau mewnol, gan leihau faint o wastraff oedd yn cael ei gynhyrchu a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol ar draws adrannau.

Roedd rheoli dŵr yn parhau i fod yn ffocws pwysig yn ystod 2024/25. Fodd bynnag, cynyddodd y defnydd dŵr cyffredinol ychydig i 550.0 l/m² a 9,805.43 l/CALl, yn bennaf oherwydd dau ollyngiad ar y safle, cynnydd yn y defnydd mewn Neuaddau, a gwell adrodd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen gwaith pellach i weithredu'n llawn y Safonau Cadwraeth Dŵr, a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2024 ac a nododd gamau gweithredu i leihau'r defnydd o ddŵr ar draws y Brifysgol.

## Teithio a Thrafnidiaeth

Roedd teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth o ran lleihau allyriadau carbon, amddiffyn bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol, a hyrwyddo iechyd a lles.  Yn 2024/25, diweddarodd y Brifysgol ei Pholisi Teithio a Thrafnidiaeth, gan roi mwy o bwyslais ar yr Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy i annog teithio carbon is. Yn ogystal, llofnododd y Brifysgol Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2025, sy'n amlinellu 15 o gamau gweithredu a fydd yn cefnogi teithio egnïol a chynaliadwy ar draws y rhanbarth.
Fodd bynnag, mae heriau'n parhau. Dangosodd canlyniadau Arolygon Teithio Staff 2023 a 2025 fod y rhan fwyaf o staff yn dal i deithio i'r gwaith mewn 'car un person' - 60% a 71% yn y drefn honno. Ar ben hynny, canfu Arolwg 2025 fod tua 9% o'r staff a holwyd wedi cerdded i'r gwaith, 8% wedi teithio i'r gwaith mewn car a rennir, 5% ar feic, 4% ar fws, a llai na 2% ar drên. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at rwystrau parhaus i newid dulliau teithio, gan gynnwys argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig a diffyg isadeiledd beicio diogel rhwng prif drefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

## I Grynhoi

Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn dangos ymrwymiad parhaus y Brifysgol i leihau ei hôl troed amgylcheddol cyffredinol, gwella bioamrywiaeth leol, a gwreiddio egwyddorion cynaliadwyedd ar draws pob maes o weithrediadau'r Brifysgol. Mae cyflawniadau 2024–25 yn darparu sylfaen gref ar gyfer cynnydd parhaus tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, carbon isel wrth amddiffyn y bywyd gwyllt a'r ecosystemau o'n cwmpas.

# Amcanion a Thargedau 2024/2025

| Maes Effaith | Targed | Hyd | Statws |
|---|---|---|---|
| T1 - Cydymffurfiaeth Amgylcheddol | Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth a'r rhwymedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau ac atal llygru'r amgylchedd naturiol a dangos cydymffurfiaeth | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| T2 - Rheoli Gwastraff | a. Creu proses i gasglu data i fesur gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |
| | b. Llunio adroddiad i ddeall cynnwys gwastraff na ellir ei ailgylchu o adeiladau preswyl i nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar ymddygiad yn y dyfodol | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | c. Gweithredu fframwaith caffael dodrefn ledled y Brifysgol a gynlluniwyd gydag egwyddorion economi gylchol | **2024 - 26** | **Heb ei Gyflawni** |
| | d. Cyflawni sero o ran gwastraff i safleoedd tirlenwi a 70% o ailddefnyddio ac ailgylchu erbyn 2025 | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |
| T3 - Caffael | a. Diffinio targedau a mesurau gweithredol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n gysylltiedig â pholisïau corfforaethol a Strategaeth Gaffael Prifysgol Bangor | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |
| | b. Sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) carbon ac amgylcheddol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y tendrau perthnasol ochr yn ochr â datblygu canllawiau i helpu mesur, monitro ac adrodd | **2024/25** | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |

# Amcanion a Thargedau 2024/2025 (Parhad)

| Maes Effaith | Targed | Hyd | Statws |
|---|---|---|---|
| T3 – Caffael (parhad) | c. Nodi a darparu hyfforddiant caffael cynaliadwy i'r holl staff gweithredol sy'n ymwneud â datblygu tendrau a rheoli contractau | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | d. Cyfleu'r nodau a'r gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd i gyflenwyr ochr yn ochr â chamau gweithredu ehangach i ymgysylltu â'r farchnad a gweithgareddau cyfathrebu | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| T4 - Cyfleustodau Dŵr | a. Lleihau'r defnydd ar ddŵr 2% o'i gymharu â 2023/24, o ganlyniad i i) arwynebedd llawr m2 defnyddiol a ii) myfyrwyr a staff CALI (trwy ei hyrwyddo ymhlith y staff a'r myfyrwyr) | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |
| | b. Gweithredu Safonau Cadwraeth Dŵr y Brifysgol i leihau'r defnydd o ddŵr a gwella cadwraeth dŵr | **2024/25** | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |

# Amcanion a Thargedau 2024/2025 (Parhad)

| Maes Effaith | Targed | Hyd | Statws |
|---|---|---|---|
| T5 - Teithio a Thrafnidiaeth | a. Cymeradwyo Polisi Teithio a Thrafnidiaeth | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | b. Cyflwyno system dalu i bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus ledled ystad y Brifysgol | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | c. Cynyddu nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Brifysgol 10% erbyn 2025 | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |
| | d. Cefnogi ac annog dulliau teithio mwy cynaliadwy ar gyfer cymudo a theithio rhwng safleoedd, gan gynnwys parhau i gysylltu â chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus (cyfathrebu) | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | e. Archwilio darpariaeth y cyfleusterau beicio (parcio beiciau, cawodydd, loceri ac yn y blaen) ledled ystad y Brifysgol | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | f. Ymgorffori'r hierarchaeth teithio cynaliadwy a nodir ym Mholisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol ym mhob un o bolisïau ac arferion y Brifysgol | **2024/25** | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |

# Amcanion a Thargedau 2024/2025 (Parhad)

| Maes Effaith | Targed | Hyd | Statws |
|---|---|---|---|
| T6 - Bioamrywiaeth | a. Sefydlu pum safle arall ar gyfer y fenter 30 erbyn 30, gan ddod â'r cyfanswm i 10 | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | b. Cwblhau arolygon bioamrywiaeth gwaelodlin ar gyfer y pum safle 30 erbyn 30 cychwynnol | **2024/25** | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |
| | c. Integreiddio’r Cynllun Gwella Bioamrywiaeth ar wefan y Brifysgol | **2024/25** | **Heb ei gyflawni** |
| T7 - Carbon | a. Lleihau CO2e yn seiliedig ar leoliad (ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2) o flwyddyn sylfaen 2018/19 25% erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2024/25. | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| | b. Adolygu a diweddaru'r Cynlluniau Rheoli Carbon | **2024/25** | **Cyflawnwyd** |
| T8 - Adeiladu | Datblygu dogfen ffurfiol yn amlinellu safonau datgarboneiddio ac amgylcheddol ar gyfer pob project adnewyddu mawr ac adeiladu newydd yn y Brifysgol | **2024/25** | **Heb ei Gyflawni** |


# Rheoli Gwastraff a'r Economi Cylchol

Mae’r Brifysgol wedi mabwysiadu targed Llywodraeth Cymru i ailddefnyddio ac ailgylchu 70% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir erbyn 2025. Er na chyflawnodd y Brifysgol y targed hwn yn 2024/25, mae'n parhau i wneud gwelliannau i'w strategaeth gwastraff er mwyn cyflawni cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu gwell.

Mae gwella ailddefnyddio, ailgylchu a'r economi gylchol yn helpu i leihau allyriadau carbon a lleihau'r galw am adnoddau naturiol. Ar ben hynny, mae lleihau gwastraff a hyrwyddo ailddefnyddio o fewn yr economi leol yn cyfrannu at arbedion cost i'r Brifysgol. Gweler manylion cynllun y Brifysgol yma. Polisi Rheoli Gwastraff

| | 2024/25 | 2023/24 | % y newid o'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gwastraff a Gynhyrchwyd (Tunelli Metrig - MT)** | 673.26 | 737.79 | **-8.75%** |
| **Cyfanswm TM Wedi'i Ailddefnyddio a'i Ailgylchu (Canran y cyfanswm)** | 379.07 (56.30%) | 407.84 (55.28%) | |
| **Cyfanswm TM a Anfonwyd i Adfer Ynni (Canran y cyfanswm)** | 294.19 (43.70%) | 329.95 (44.72%) | |
| **Cyfanswm TM a Anfonwyd i Dirlenwi (Canran y cyfanswm)** | 0.0 (0%) | 0.0 (0%) | |
| **Cyfanswm TM a Ailddefnyddwyd (Gwastraff a Osgowyd)** | 12.95 | | |




# Targedau Gwastraff a Chynnydd 2024/25

**Targed a - Creu proses i gasglu data i fesur gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff)** o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod

**Cynnydd yn erbyn y targed – Heb ei Gyflawni**: Y broses i gasglu data i fesur gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod parhaus.



**Targed b - Llunio adroddiad i ddeall cynnwys gwastraff na ellir ei ailgylchu o adeiladau preswyl i nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar ymddygiad yn y dyfodol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i Gyflawni**: Cwblhawyd adroddiad yn nodi bod 40% o'r holl wastraff na ellir ei ailgylchu yn dod o adeiladau preswyl ac fe gynigiodd sawl menter i leihau gwastraff na ellir ei ailgylchu, gan gynnwys:

- ✓ hyfforddiant staff
- ✓ cydgrynhoi/canoli biniau
- ✓ cynhyrchu canllaw ailgylchu digidol amlieithog i fyfyrwyr mewn neuaddau
- ✓ gwella arwyddion yng ngheginau'r neuaddau
- ✓ cystadlaethau rhwng neuaddau i sicrhau'r cyfraddau ailgylchu gorau,
- ✓ gwobrwyo'r ymdrechion ailgylchu gorau mewn neuaddau

# Targedau Gwastraff a Chynnydd 2024/25 (parhad)



**Targed c - Gweithredu fframwaith caffael dodrefn ledled y Brifysgol a gynlluniwyd gydag egwyddorion economi gylchol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Heb ei Gyflawni**: Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith caffael dodrefn ledled y Brifysgol a gynlluniwyd gydag egwyddorion economi gylchol.




**Targed d - Cyflawni sero o ran gwastraff i safleoedd tirlenwi a 70% o ran ailddefnyddio ac ailgylchu erbyn 2025**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Heb ei Gyflawni**: Ni chyflawnwyd y targed o 70% o ailddefnyddio ac ailgylchu erbyn 2025, ond dyma fydd targed gwastraff y Brifysgol hyd nes y caiff ei gyflawni.

# Ymgyrchoedd Gwastraff a Chodi Ymwybyddiaeth

Cododd y Brifysgol ymwybyddiaeth ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trwy wella cyfathrebu, ymgyrchoedd wedi eu targedu a mentrau penodol. Roedd y rhaglenni allweddol a gyflwynwyd yn 2024–25 yn cynnwys Gwell ar Wahân ac Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff. Yn ogystal, derbyniodd staff newydd sesiynau cynefino a oedd yn mynd i'r afael â dull y Brifysgol o ymdrin ag economi gylchol a lleihau gwastraff, tra bod staff presennol wedi cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi diweddaru.

# Defnydd Ynni 2024/25




*Data CALl diwygiedig






| | 2024/25 | O'i gymharu â 2018/19 | O'i gymharu â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Defnydd o Ynni** | 29,911,146.72 kWh | **- 20.3%** | **- 35.8%** |
| | | | |
| **Defnydd ynni fesul $m^2$** | 142.19 kWh/$m^2$ | **- 13.1%** | **- 45.1%** |
| Defnydd ynni **fesul CALl** | 2,535.01 kWh/CALl | **- 30.0%** | **- 49.3%** |

## Crynodeb o Ddefnydd Ynni


| | 2024/25 |
|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Trydan | 13,582,662.14 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Nwy | 15,414,479.68 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Olew Gwresogi | 668,616.20 kWh |
| Cyfanswm Defnydd LPG | 91,632.8 kWh |
| Cynhyrchu ar y Safle (Solar) | 153,755.90 kWh |

# Defnydd Dŵr 2024/25




*Data CALl diwygiedig








| | 2024/25 | O'i gymharu â 2018/19 | O'i gymharu â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Defnydd Dŵr** | 115,696.22 $m^3$ | **- 24.0%** | **- 28.7%** |
| | | | |
| Defnydd dŵr **fesul $m^2$** arwynebedd llawr defnyddiol | 550.0 litr/$m^2$ | **- 17.1%** | **- 39.1%** |
| Defnydd o ddŵr fesul **CALl** (myfyrwyr a staff | 9,805.43 litr/CALl | **- 33.2%** | **- 43.7%** |
| Mesurwyd 116.38 $m^3$ o gasgliadau dŵr glaw mewn dau safle yn ystod 2024/25. | | | |

# Carbon, Allyriadau a Gollyngiadau 2024/25

Ym mlwyddyn academaidd 2024/25 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol eto hyd 5,771.03 tunnell CO2e, o'i gymharu â 6,641.66 tunnell CO2e yn 2023/24 a 9,491.9 tunnell CO2eyn 2018/19, yn seiliedig ar gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad. Arhosodd allyriadau seiliedig ar y farchnad yr un fath ag allyriadau seiliedig ar leoliad gan na chafodd unrhyw drydan adnewyddadwy ardystiedig Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) ei gaffael yn ystod y flwyddyn.

| Cyfanswm Cwmpas Allyriadau 1 a 2 | 2024/25 | O'i gymharu â 2018/19 |
|---|---|---|
| i. Dull Seiliedig ar Leoliad | 5,771.03 tunnell CO2e | -39.2% |
| ii. Dull Seiliedig ar y Farchnad | 5,771.03 tunnell CO2e | -39.2% |




Roedd cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2023/24 a 2024/25 yn dangos gostyngiad bach yn nefnydd trydan a nwy naturiol, a nwyon-F oereiddio aerdymheru, tra bo cynnydd mewn olew gwresogi, defnydd LPG a gweithgarwch amaethyddol. Gostyngodd y defnydd o danwydd i'r fflyd a'r peiriannau hefyd, a chyfrannodd hyn oll at ostyngiadau pellach mewn allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2. Eleni hefyd gwelwyd cynnydd yn allbwn solar y Brifysgol.

# Carbon, Allyriadau a Gollyngiadau 2024/25 (Parhad)

**DPA 1.6 - Lleihau allyriadau CO2e Cwmpas 1 gwresogi tanwydd ffosil Cwmpas 1 o leiaf 3% y flwyddyn ar gyfartaledd**

**Cynnydd yn erbyn DPA - Wedi'i gyflawni:** Mae DPA y Brifysgol i leihau allyriadau gwresogi tanwydd ffosil CO2e Cwmpas 1 o leiaf 3% y flwyddyn, ar gyfartaledd, ychydig yn uwch nag isafswm y targed, ac mae'r allyriadau wedi gostwng 22.71% (883t) ers 2018/19.








O fewn allyriadau Cwmpas 3, gostyngodd gweithgaredd ar draws y gadwyn gyflenwi, cerbydau ar brydles, a fflyd lwyd.
Er bod y Brifysgol wedi gwneud mwy o ddefnydd o'i Hasiant Teithio ar gyfer archebion teithiau busnes, gostyngodd ffactorau allyriadau teithio awyr yn sylweddol, gan arwain at allyriadau is yn y categori hwn.
Dim ond mân newidiadau a welodd categorïau eraill, gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn ein hallyriadau carbon Cwmpas 3.

# Carbon, Allyriadau a Gollyngiadau 2024/25 - Tabl Crynhoi

| | |
|---|---|
| **Allyriadau Cwmpas 1 yn ôl Ffynhonnell** | |
| Defnydd Nwy | 2,820.23 tunnell CO2e |
| Defnydd Olew Gwresogi | 164.99 tunnell CO2e |
| Defnydd LPG | 19.66 tunnell CO2e |
| Defnydd Petrol | 11.10 tunnell CO2e |
| Defnydd Diesel | 39.55 tunnell CO2e |
| Aerdymheru a Nwyon-F Oereiddio | 7.23 tunnell CO2e |
| Gweithgareddau Amaethyddol | 304.14 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm Cwmpas 1** | 3,366.90 tunnell CO2e |
| **Allyriadau Cwmpas 2 yn ôl Ffynhonnell** | |
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar Leoliad) | 2,404.13 tunnell CO2e |
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar y Farchnad) | 2,404.13 tunnell CO2e |
| **Allyriadau Cwmpas 3 yn ôl Ffynhonnell** | |
| Defnydd Dŵr | 22.13 tunnell CO2e |
| Cynhyrchu Dŵr Gwastraff | 17.06 tunnell CO2e |
| Gwastraff | 3.82 tunnell CO2e |
| Fflyd Lwyd | 106.53 tunnell CO2e |
| Cerbydau ar Brydles (Hurio Car a Fan) | 21.47 tunnell CO2e |
| Teithio Busnes [1] | 488.91 tunnell CO2e |
| Cadwyn Gyflenwi (Caffael) | 16,047.90 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm Cwmpas 3** | 16,707.82 tunnell CO2e |
| **Storio yn ôl daliadau tir** | |
| Allyriadau tir | -894.91 tunnell CO2e |
| | |
| **Cyfanswm gyda thrydan seiliedig ar leoliad** | 22,478.85 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm gyda thrydan yn seiliedig ar y farchnad** | 22,478.85 tunnell CO2e |

1 Mae Teithio Busnes yn cynnwys rhan yn unig o'r allyriadau trên ac awyr a gafodd eu mesur trwy Asiant Teithio'r Brifysgol.

# Teithio a Thrafnidiaeth 2024/25 - Targedau a Chynnydd

Cymeradwywyd Polisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol ym mis Hydref 2024 i hyrwyddo ac annog teithio cynaliadwy a gweithredol ymhellach ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Mae'r polisi diwygiedig yn atgyfnerthu ymrwymiad y Brifysgol i leihau allyriadau carbon o deithio, gwella hygyrchedd, a chefnogi opsiynau cymudo iachach, sy'n cael llai o effaith, ar draws cymuned y campws.

Ym mis Chwefror 2025, llofnododd y Brifysgol Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru, sy'n addo ymrwymiad i ystod o fentrau i hyrwyddo amcanion teithio cynaliadwy, gan gynnwys uwchraddio isadeiledd beicio, gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, ac ymgyrchoedd ymgysylltu i wella ymwybyddiaeth staff o feicwyr a cherddwyr wrth yrru. Mae arolygon teithio staff a myfyrwyr rheolaidd yn parhau i ddarparu gwybodaeth am ddulliau a phatrymau teithio, sy'n helpu i lywio camau gweithredu yn y dyfodol a sicrhau cynnydd tuag at nodau cynaliadwyedd y Brifysgol.



Roedd chwe tharged teithio a thrafnidiaeth ar gyfer 2024/25:

**Targed a - Cymeradwyo Polisi Teithio a Thrafnidiaeth**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i gyflawni**: Cymeradwywyd Polisi Teithio a Thrafnidiaeth diwygiedig yn 2024/25.

**Targed b - Cyflwyno system dalu i bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus ledled ystad y Brifysgol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i gyflawni**: gosododd Evolt Network system dalu drwy ap yn yr holl bwyntiau gwefru ceir trydan (EV) sydd ar gael i'r cyhoedd ar draws y Brifysgol.

# Teithio a Thrafnidiaeth 2024/25 - Targedau a Chynnydd (Parhad)



**Targed c -** **Cynyddu nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Brifysgol 10% erbyn 2025**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Heb ei Gyflawni**: oherwydd cyfyngiadau ariannol, nid yw nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Brifysgol wedi cynyddu.

**Targed d -** **Cefnogi ac annog dulliau teithio mwy cynaliadwy ar gyfer cymudo a theithio rhwng safleoedd, gan gynnwys parhau i gysylltu â chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i gyflawni**: parhaodd y gwaith i ddatblygu negeseuon ynghylch teithio cynaliadwy mewn Bwletinau Staff a Myfyrwyr a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac i gysylltu â chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus.

**Targed e -** **Archwilio darpariaeth y cyfleusterau beicio (parcio beiciau, cawodydd, loceri ayb) ledled ystâd y Brifysgol**


**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i gyflawni:** cwblhawyd archwiliad o gyfleusterau beicio ym mis Gorffennaf 2025.

**Targed f -** **Ymgorffori'r hierarchaeth teithio cynaliadwy a nodir ym Mholisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol ym mhob un o bolisïau ac arferion y Brifysgol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i Gyflawni**: Mae'r targed hwn yn un parhaus:

Darllenwch fwy am Deithio a Thrafnidiaeth yn y Brifysgol yma: Teithio a Thrafnidiaeth - Canllawiau Teithio Cynaliadwy

# Bioamrywiaeth 2024/25 - Targedau a Chynnydd




Gosododd y Brifysgol darged yn 2022 i gadw a gwella 30% o'i mannau gwyrdd presennol a sefydlu 30 o safleoedd newydd ledled yr ystad erbyn 2030 er mwyn cefnogi bywyd gwyllt. Mae'r dyhead hwn bellach yn cael ei hyrwyddo drwy'r fenter 30 erbyn 30, sy'n anelu at sefydlu cynefinoedd amrywiol ar gyfer rhywogaethau lleol, cryfhau cysylltiadau ecolegol ag ardaloedd gwyllt cyfagos, a chyfrannu at fwy o fioamrywiaeth leol a nifer y rhywogaethau.

Yn ystod 2024/25, cwblhawyd y project *Ardal Natur a Choetir Cymunedol, Parc y Coleg*, a ariannwyd yn llawn gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac sydd bellach yn safle 30 erbyn 30 pwrpasol. Cyflwynodd y project Gynllun Rheoli Coetiroedd cynhwysfawr, a ragnododd blannu 1,500 o goed brodorol a 15,000 o flodau gwyllt a bylbiau. Yn ogystal, gosodwyd gaeafleoedd a llochesi bywyd gwyllt i gefnogi cynefinoedd. Hefyd, cyflawnodd y project y gwelliannau isadeiledd canlynol o fewn yr Ardal Natur i wella mynediad a chaniatáu ailagor y llwybr uchaf o Lôn Cariadon i Brif Adeilad y Celfyddydau a Pontio:

- llwybr cerdded newydd drwy ran o'r coetir
- ail-wynebu arwynebau llwybrau cerdded presennol
- ailadeiladu'r wal gynnal ar hyd y llwybr uchaf gan ddefnyddio basgedi gabion wedi'u llenwi â cherrig
- ailgynllunio mynedfa Lôn Cariadon gan gynnwys palmant cyffyrddol a giât i gerddwyr

Yn 2024/25, gosodwyd tri tharged bioamrywiaeth — dau yn cefnogi cyflawniad y fenter 30 erbyn 30, ac un yn canolbwyntio ar integreiddio'r Cynllun Gwella Bioamrywiaeth i wefan y Brifysgol.

# Bioamrywiaeth 2024/25 - Targedau a Chynnydd (Parhad)





**Targed a - Sefydlu pum safle arall ar gyfer y fenter 30 erbyn 30, gan ddod â'r cyfanswm i 10**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i gyflawni**: sefydlwyd 5 safle arall yn ystod 2024/25, a oedd yn cynnwys:

- Ardal Natur, Parc y Coleg
- Fila Cae Derwen – Dôl Gefn
- Neuadd Rathbone – Dôl Llethrog
- Teras Prif Adeilad y Celfyddydau – Dôl Ddeheuol
- Adeilad Newydd y Celfyddydau - Dôl



**Targed b - Cwblhau arolygon bioamrywiaeth gwaelodlin ar gyfer y pum safle 30 erbyn 30 cychwynnol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Wedi'i Gyflawni'n Rhannol**: cwblhawyd arolygon llystyfiant ar gyfer y pum safle 30 erbyn 30 cychwynnol:

- Y Ganolfan Rheolaeth
- Neuadd John Phillips – Dôl Ogleddol
- Neuadd John Phillips – Dôl Ddeheuol
- Neuadd Gartherwen
- Neuadd Rathbone – Dôl Ogleddol

# Bioamrywiaeth 2024/25 - Targedau a Chynnydd (Parhad)

**Targed c - Integreiddio'r *Cynllun Gwella Bioamrywiaeth* ar wefan y Brifysgol**

**Cynnydd yn erbyn y targed – Heb ei Gyflawni**: oherwydd nad yw interniaethau wedi'u dyfarnu, nid yw'r Cynllun Gwella Bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori eto i dudalennau gwe bioamrywiaeth y Brifysgol.

I gael gwybodaeth fanwl am fioamrywiaeth ym Mhrifysgol Bangor, gweler:

Adran 6: Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau - Adroddiad 2025








PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY
1884